# Energy Local

# Dewisiadau i Gwsmeriaid Gyda Phaneli Haul

Mae Octopus Energy wedi cadarnhau y gall aelodau clwb efo paneli haul ar y to gynnig eu cynhyrchiad dros ben i'w Clwb Ynni Lleol. Ni fydd rhaid gwneud hynny; gallwch ddewis parhau â'ch trefniant presennol.

## Sut fydd hyn yn gweithio?

Pan osodir eich mesurydd trydan, gallwch ddewis ei osod fel y bydd unrhyw drydan a gynhyrchir gan eich paneli haul ond nad ydych yn defnyddio eich hunain (eich trydan allforio) ar gael i'w ddefnyddio gan aelodau eraill eich Clwb. Bydd unrhyw drydan na ddefnyddir un ai gennych chi neu gan aelodau clwb eraill yn mynd i Octopus ar gyfer eu cwsmeriaid eraill.

## Beth fydda i'n ei gael amdano?

Pan fydd aelodau eraill y Clwb yn defnyddio eich trydan solar allforio pan mae'n cael ei gynhyrchu, byddwch yn cael y tariff cyfatebol y mae'r Clwb wedi cytuno (7.50 c/kWh), fel yr hydro lleol neu gynhyrchwyr eraill yn y Clwb.

Am unrhyw ynni solar allforio sydd ddim yn cael ei ddefnyddio gan y clwb ar yr amser mae'n cael ei gynhyrchu, byddwch yn cael 5.5c/kWh gan Octopus. Y pris hwn yw tariff safonol Octopus y maen nhw'n ei dalu am ynni solar allforio (Outgoing Tariff). Gallwch ddarllen rhagor am Octopus Outgoing Tariff yma: https://octopus.energy/outgoing/

## Sut dwi'n cofrestru?

Rhaid i chi wneud dau beth:

1. Cadarnhau eich diddordeb yn Ynni Lleol wrth lenwi'r ffurflen hon: https://gofyn.co.uk/index.php/321194?lang=cy

2. Gwneud cais am dariff Octopus Outgoing yma: https://octopus.typeform.com/to/Q0L2FO

© Energy Local CIC 2019

## Fydda i'n cael mwy o arian?

Mae hyn yn dibynnu ar eich cytundeb presennol.

Os nad ydych yn mesur ar hyn o bryd faint o ynni rydych yn ei allforio bob hanner awr, efallai bod gennych chi rywbeth o'r enw 'allforio tybiedig'. Golyga hyn eich bod yn cael taliadau allforio am 50% o'r trydan rydych yn ei gynhyrchu (gofynnir i chi ddarparu darlleniad mesurydd cynhyrchu bob chwarter). Efallai y byddwch yn defnyddio mwy neu lai na 50% yn eich cartref. Os ydych chi allan yn ystod y dydd, efallai cewch daliadau am lai na'r hyn rydych yn ei allforio. Os ydych chi adref yn ystod y dydd, efallai cewch eich talu am fwy na'r hyn rydych yn ei allforio.

Gyda mesurydd hanner awr sy'n mesur eich trydan allforio, byddwch yn cael tâl dim ond am y trydan rydych yn ei allforio. Fodd bynnag, bydd tariff cyfatebol y Clwb yn uwch na'r tariff rydych yn ei gael ar hyn o bryd am allforio.

Rydych yn debygol o ennill mwy heblaw bod gennych solar bach iawn a'ch bod adref yn ystod y dydd. Ond ni fedrwn warantu hynny.

Bydd eich enillion, o'u cymharu â'r allforio tybiedig, yn dibynnu ar:

1. Faint yn union rydych yn ei allforio.
2. A yw aelodau eraill o'r Clwb yn defnyddio eu trydan nhw yr un amser rydych yn cynhyrchu eich trydan chi.
3. Y gwahaniaeth rhwng Pris CPP Octopus a thariff allforio FIT.
4. Tariff cyfatebol y Clwb, fydd yn uwch na Phris Octopus Outgoing.

## Beth am fy nhaliadau tariff cyflenwi trydan (FIT)?

Mae yna ddwy elfen i'r taliadau cyflenwi trydan (FIT) i gynhyrchwyr domestig: y tariff cynhyrchu sy'n cael ei dalu am yr holl drydan a gynhyrchir, a'r tariff allforio FIT. Ni fydd newid o gytundeb allforio tybiedig i gytundeb prynu pŵer am eich trydan allforio yn cael effaith ar eich taliadau tariff cynhyrchu am y cyfanswm a gynhyrchir.

## Dewisiadau eraill

Nid oes rhaid i chi roi eich solar yn eich Clwb Ynni Lleol. Dyma ddewisiadau eraill.

### Aros ar allforio tybiedig

Os ydych eisoes ar gytundeb allforio tybiedig ac yn dewis aros felly, bydd yn golygu y cewch gyfradd tariff allforio FIT bob amser (3.82 c/kWh os gosodwyd eich paneli cyn 31/07/2012 neu 5.38 c/kWh os gosodwyd hwy wedyn) am 50% o'ch cynhyrchiad trydan, a dim gwahaniaeth faint y byddwch yn ei ddefnyddio eich hunain na beth mae gweddill y Clwb yn gwneud. Ni fydd gennych gyfle i elwa o brisiau uwch tariff cyfatebol y Clwb, ond byddwch yn gallu cyfrifo'ch incwm cyflenwi trydan yn uniongyrchol o'r cyfanswm a gynhyrchwch.



© Energy Local CIC 2019 

**Cael CPP heb Ynni Lleol**
Os ydych eisoes yn mesur eich trydan allforio, gallwch barhau ar eich cytundeb presennol neu chwilio am CPP arferol yn y farchnad ehangach. Os ydych am wneud hyn, ni fyddwch yn elwa o dariff cyfatebol y Clwb am eich trydan solar.

Gyda’r dewisiadau o aros ar allforio tybiedig a hefyd gael CPP heb Ynni Lleol, cofiwch y rheolir eich trydan allforio yn gyfan gwbl tu allan i Ynni Lleol.

Os nad yw hyn yn glir, neu os hoffech gael sgwrs gyda’ch ymgynghorydd, mae croeso i chi gysylltu â ni.



© Energy Local CIC 2019 